# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 4 Ebrill 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4260

# 63(v4)

## Cofnod y Trafodion

Gweld Cofnod y Trafodion

## Teyrngedau i Claire Clancy wrth iddi ymddeol

Rhoes y Llywydd deyrnged i Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, wrth iddi ymddeol. Yna, rhoddwyd teyrngedau gan arweinwyr y pleidiau a chan Dafydd Elis-Thomas, y cyn-Lywydd.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.40

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.29

## Cynnig i atal y Rheolau Sefydlog i ganiatáu i'r eitem fusnes nesaf gael ei hystyried

Dechreuodd yr eitem am 14.40

**NNDM6290 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i), 12.22(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM6289 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 4 Ebrill 2017.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 3 Dadl: Y goblygiadau i Gymru yn sgîl gadael yr Undeb Ewropeaidd

Dechreuodd yr eitem am 14.40

**NNDM6289** **Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ailddatgan ei gefnogaeth gref i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru – Plaid Cymru, *"Diogelu Dyfodol Cymru"* fel dull credadwy a chynhwysfawr o fynd ati i amddiffyn a hyrwyddo buddiannau Cymru wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

2. Yn nodi'r llythyr a anfonodd Prif Weinidog y DU ar 29 Mawrth 2017 yn unol ag Erthygl 50 o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd, a'r mandad negodi drafft a gyhoeddwyd gan Lywydd y Cyngor Ewropeaidd mewn ymateb iddo.

3. Yn nodi ymhellach Bapur Gwyn Llywodraeth y DU *"Legislating for the United Kingdom's withdrawal from the European Union"*, a gyhoeddwyd ar 30 Mawrth 2017, sy'n amlinellu ei chynigion ar gyfer deddfwriaeth i roi ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd ar waith, ond yn credu bod gwendidau mawr yn y dadansoddiad o'r rhyngberthynas rhwng pwerau presennol yr UE a'r setliad datganoli.

4. Yn ailddatgan y bydd rhaid i'r strwythurau cyfansoddiadol a llywodraethol yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd gael eu seilio ar barch llwyr i'r setliad datganoli a threfniadau gwell ar gyfer cynnal perthynas rynglywodraethol, gyda phedair llywodraeth y DU yn parchu ei gilydd mewn modd cydradd.

5. Yn ailddatgan hefyd yn y modd cryfaf posibl y bydd rhaid i unrhyw fframweithiau sy'n ymwneud â meysydd polisi datganoledig, y bydd eu hangen o bosibl er mwyn sicrhau bod marchnad y DU yn gweithredu'n esmwyth, gael eu cytuno drwy gonsensws rhwng Llywodraeth y DU a phob un o'r tair Gweinyddiaeth Ddatganoledig ac y dylent fod yn destun mecanweithiau annibynnol i ddatrys anghydfod; rhaid i gytundeb a chonsensws fod wrth wraidd dulliau gweithredu a fframweithiau cyffredin o'r fath.

6. Yn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am gael cymryd rhan uniongyrchol yn y negodiadau ar ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ac ar y berthynas fasnach ac unrhyw berthynas arall â'r Undeb yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod buddiannau penodol Cymru yn cael eu diogelu.

7. Yn cadarnhau ei farn na ddylai Cymru fod o dan unrhyw anfantais yn ariannol yn sgil ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, ac yn galw ar Lywodraeth y DU i wneud ymrwymiad llawn a chyhoeddus i'r perwyl hwnnw.

8. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi adroddiad rheolaidd i'r Cynulliad am y cynnydd a wneir o ran y materion hyn.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn**:

**Gwelliant 1 – David J Rowlands (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn credu nad yw Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Plaid Cymru, "Diogelu Dyfodol Cymru" yn gredadwy oherwydd ei ragdybiaethau pesimistaidd afrealistig o gostau honedig gadael yr UE.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 6 | 10 | 38 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – David J Rowlands (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 3, dileu 'ond yn credu bod gwendidau mawr yn y dadansoddiad o'r rhyngberthynas rhwng pwerau presennol yr UE a'r setliad datganoli'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 38 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – David J Rowlands (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 5, dileu 'bydd rhaid i' a rhoi yn ei le 'dylai'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 38 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 – David J Rowlands (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 5, dileu 'rhaid i gytundeb a chonsensws fod wrth wraidd dulliau gweithredu a fframweithiau cyffredin o'r fath' a rhoi yn ei le:

'yn cydnabod bod ymddygiad Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wrth barhau i frwydro yn erbyn ymgyrch y refferendwm ar ôl y canlyniad ar 23 Mehefin 2016 yn gwneud canlyniad o'r fath yn afrealistig'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 6 | 10 | 37 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 – David J Rowlands (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 6.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 38 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 – David J Rowlands (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, pe bai anhyblygrwydd yr UE yn atal cytundeb masnach rydd â'r DU, byddai costau pontio gadael yr UE, yn seiliedig ar reolau Sefydliad Masnach y Byd yn cael eu lleddfu'n sylweddol gan arbedion Prydain o £8 biliwn y flwyddyn mewn cyfraniadau net i Gyllideb yr UE, a refeniw net tebygol ar dollau ar fasnach rhwng yr UE a'r DU o £8 biliwn y flwyddyn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 6 | 10 | 38 | 54 |

**Derbyniwyd/Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno bil parhad (Cymru) er mwyn cynnal cyfansoddiad Cymru a throi yr holl ddeddfwriaeth Ewropeaidd sy'n berthnasol i feysydd polisi datganoledig yn ddeddfau i Gymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 39 | 6 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NNDM6289 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ailddatgan ei gefnogaeth gref i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru – Plaid Cymru, "Diogelu Dyfodol Cymru" fel dull credadwy a chynhwysfawr o fynd ati i amddiffyn a hyrwyddo buddiannau Cymru wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

2. Yn nodi'r llythyr a anfonodd Prif Weinidog y DU ar 29 Mawrth 2017 yn unol ag Erthygl 50 o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd, a'r mandad negodi drafft a gyhoeddwyd gan Lywydd y Cyngor Ewropeaidd mewn ymateb iddo.

3. Yn nodi ymhellach Bapur Gwyn Llywodraeth y DU *"Legislating for the United Kingdom's withdrawal from the European Union"*, a gyhoeddwyd ar 30 Mawrth 2017, sy'n amlinellu ei chynigion ar gyfer deddfwriaeth i roi ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd ar waith, ond yn credu bod gwendidau mawr yn y dadansoddiad o'r rhyngberthynas rhwng pwerau presennol yr UE a'r setliad datganoli.

4. Yn ailddatgan y bydd rhaid i'r strwythurau cyfansoddiadol a llywodraethol yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd gael eu seilio ar barch llwyr i'r

setliad datganoli a threfniadau gwell ar gyfer cynnal perthynas rynglywodraethol, gyda phedair llywodraeth y DU yn parchu ei gilydd mewn modd cydradd.

5. Yn ailddatgan hefyd yn y modd cryfaf posibl y bydd rhaid i unrhyw fframweithiau sy'n ymwneud â meysydd polisi datganoledig, y bydd eu hangen o bosibl er mwyn sicrhau bod marchnad y DU yn gweithredu'n esmwyth, gael eu cytuno drwy gonsensws rhwng Llywodraeth y DU a phob un o'r tair Gweinyddiaeth Ddatganoledig ac y dylent fod yn destun mecanweithiau annibynnol i ddatrys anghydfod; rhaid i gytundeb a chonsensws fod wrth wraidd dulliau gweithredu a fframweithiau cyffredin o'r fath.

6. Yn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am gael cymryd rhan uniongyrchol yn y negodiadau ar ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ac ar y berthynas fasnach ac unrhyw berthynas arall â'r Undeb yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod buddiannau penodol Cymru yn cael eu diogelu.

7. Yn cadarnhau ei farn na ddylai Cymru fod o dan unrhyw anfantais yn ariannol yn sgil ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, ac yn galw ar Lywodraeth y DU i wneud ymrwymiad llawn a chyhoeddus i'r perwyl hwnnw.

8. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi adroddiad rheolaidd i'r Cynulliad am y cynnydd a wneir o ran y materion hyn.

9. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno bil parhad (Cymru) er mwyn cynnal cyfansoddiad Cymru a throi yr holl ddeddfwriaeth Ewropeaidd sy'n berthnasol i feysydd polisi datganoledig yn ddeddfau i Gymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 1 | 16 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 4 Datganiad gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – flwyddyn yn ddiweddarach

Dechreuodd yr eitem am 16.07

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Dyfodol Gwasanaethau Treftadaeth Cymru – partneriaeth strategol newydd a dyfodol Cadw

Dechreuodd yr eitem am 16.51

## 6 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Dyfodol Cyflenwi Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 17.47

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod yr eitemau a ganlyn gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud):

## 7 Gorchymyn Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2017

Dechreuodd yr eitem am 18.34

**NDM6280** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2017.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2017

**NDM6281** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osdodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2017.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 18.37

**NDM6291** Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:
Yn cymeradwyo'r Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 TYNNWYD YN OL: Dadl: Mynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd

## 11 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.48

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 18.52

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 5 Ebrill 2017**